

Wylfa Newydd
Adroddiad ar yr Effaith Leol

Pennod 2: Fframwaith Polisi

Rhagfyr 2018

Cyf PINS: EN010007

Mae'r dudalen hon i fod yn wag

1.0 Fframwaith Polisi

1.1 Cyflwyniad

1.2 Materion pwysig a pherthnasol dan Ddeddf Cynllunio 2008

- 1.2.1 Y ddau Ddatganiad Polisi Cenedlaethol perthnasol i'r cais hwn yw EN1 (Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol ar Ynni) ac EN6 (Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Cynhyrchu Ynni Niwclear).
- 1.2.2 Nid oes dadl yn erbyn y materion a drafodwyd yn y dogfennau hynny ynghylch yr angen, ac mae'r Adroddiad ar yr Effaith Leol wedi bwrw ymlaen ar y sail bod angen ar frys heb ei ddiwallu am y math hwn o ddatblygiad a hefyd bod y nodweddion lleoliadol eang yn ymwneud â lleoliad y safle cynhyrchu yn Wylfa hefyd yn cael eu bodloni.
- 1.2.3 Derbynnir y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi pwys sylweddol ar yr angen cenedlaethol a'r cyfraniad y byddai'r datblygiad hwn yn ei wneud at ddiwallu'r angen hwnnw wrth wneud y penderfyniad ar y gorchymyn cydsyniad datblygu.
- 1.2.4 Fodd bynnag, mae amrywiaeth eang o ystyriaethau lleoliadol penodol i'r safle a gadwyd yn ôl yn y ddau Ddatganiad Polisi Cenedlaethol sydd angen eu hystyried fesul safle. Nid yw'r ddau Ddatganiad Polisi Cenedlaethol yn ceisio asesu a yw dyluniad manwl y cyfleusterau niwclear neu'r modd y bwriedir eu hadeiladu, yn arwain at ddatblygiad sy'n briodol i'w gymeradwyo. Mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol yn darparu naratif ar y meini prawf i'w cymhwyso ar lefel leol, ond mae'n amlwg hefyd bod y meini prawf hynny wedi eu seilio i raddau helaeth ar lefel genedlaethol i fod yn berthnasol i bob cynnig am orsaf ynni niwclear.
- 1.2.5 Yn yr achos presennol, mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd statudol wedi dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod y mae cynnig Wylfa Newydd wedi bod yn destun ymgynghoriad cyn ymgeisio. Gan hynny, mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi gallu mynd i'r afael â'r cwestiynau y mae angen eu gofyn (ar lefel uchel o fanylder) er mwyn asesu pa mor dderbyniol yw effeithiau cynnig datblygu mor fawr.
- 1.2.6 Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar 31 Gorffennaf 2017 ac felly mae'n gyfredol. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd:
- (a) yn seiliedig ar dystiolaeth glir wedi ei chyhoeddi ar gyfer adolygu eu meini prawf asesu;
 - (b) yn destun ymgynghoriad cynhwysfawr â'r cyhoedd, awdurdodau statudol, rhanddeiliaid a'r datblygwr; ac roedd
 - (c) yn destun asesiad annibynnol gan arolygwyr y cynllun lleol, a gwelwyd ei fod yn gadarn ym marn yr Arolygwyr.
- 1.2.7 Cynorthwywyd y gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd drwy fodolaeth Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol, a ddatblygwyd ac a fabwysiadwyd i ddechrau cyn mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Cafodd y

Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol ei adolygu, ei ddiwygio, ei agor ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a'i ail-fabwysiadu yng ngoleuni mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae'r Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol yn darparu haen arall o fanylion ar gyfer asesu effeithiau'r datblygiad a'u derbynioldeb.

- 1.2.8 Mae'r penodau a ganlyn yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ond hefyd yn gorgyffwrdd â pholisi a chanllawiau cynllunio lleol ar ffurf y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a'r Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol i arwain sylw ar effeithiau penodol a phwysigrwydd delio â hwy.
- 1.2.9 Mae CSYM o'r farn bod y datganiad gweinidogol¹ yn nodi'n glir bod y Llywodraeth o'r farn y dylid ystyried gorsafoedd ynni niwclear sydd eto i wneud cais am ganiatâd datblygu, ac y disgwylir eu defnyddio y tu hwnt i 2025, o dan adran 105 o'r Ddeddf, yn hytrach nag adran 104. O dan adran 105, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn parhau i ystyried y Datganiadau Polisi Cenedlaethol a phob mater arall sy'n bwysig ac yn berthnasol. Mae CSYM yn honni y dylai'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a'r Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol, fel y cynllun datblygu perthnasol a'r canllawiau prosiect penodol diweddaraf, fod yn ystyriaethau pwysig a pherthnasol o dan adrannau 104 a/neu 105 o Ddeddf Cynllunio 2008, ac y dylid rhoi cryn bwyslais ar eu sylwedd wrth ystyried a phenderfynu ar y cais hwn.
- 1.2.10 Mae'r paragraffau a ganlyn yn rhoi trosolwg o Bolisi Cynllunio Cymru, Nodiadau Cyngor Technegol, a Chanllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd. Gan mai Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn yw'r Cynllun statudol lleol ar gyfer asesu a gwneud penderfyniadau ynghylch datblygiadau newydd, darperir rhagor o fanylion yn y Bennod hon ac ym mhob pennod berthnasol yn yr Adroddiad Effaith Lleol hwn.

1.3 Polisi Cynllunio Cenedlaethol

Polisi Cynllunio Cymru

- 1.3.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn egluro polisiâu cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Mae'n trosi ymrwymiad y Llywodraeth i ddatblygu cynaliadwy yn y system gynllunio fel y gall chwarae rôl briodol wrth symud tuag at gynaliadwyedd. Mae Polisi Cynllunio Cymru, y Nodiadau Cyngor Technegol, cylchlythyrau a llythyrau egluro polisi yn cyfrannu at y polisi cynllunio cenedlaethol. Dylid ystyried polisi cynllunio cenedlaethol wrth baratoi cynlluniau datblygu. Gall fod yn berthnasol i benderfyniadau ar geisiadau cynllunio unigol, a bydd yn cael ei ystyried gan Weinidogion Cymru ac Arolygwyr Cynllunio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio a alwyd i mewn ac apeliadau.
- 1.3.2 Ar hyn o bryd, Rhifyn 9 Polisi Cynllunio Cymru yw'r ddogfen a fabwysiadwyd. Rhywbeth sy'n arbennig o berthnasol yw bod Polisi Cynllunio Cymru yn cael ei ategu gan y nodau Llesiant, ac mae'n cadarnhau'r rhagdybiaeth o blaid

¹ Datganiad ar Seilwaith Ynni: Datganiad ysgrifenedig - HCWS321, a wnaed ar 07 Rhagfyr 2017 gan Richard Harrington (Is-ysgrifennydd Seneddol (Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol) ([Dolen](#)))

datblygu cynaliadwy. Mae'n hyrwyddo manau sy'n hyrwyddo llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol drwy:

- a) ddarparu cyflogaeth a datblygiad economaidd cysylltiedig mewn amgylchedd dymunol. Mae'r lleoedd hyn wedi eu cynllunio a'u lleoli i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy ei gwneud yn hawdd cerdded a beicio atynt ac o'u cwmpas, hwyluso mynediad drwy drafnidiaeth gyhoeddus, lleihau'r defnydd o adnoddau anadnewyddadwy a defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy a charbon isel;
- b) darparu cymunedau cydlynol sydd wedi eu cysylltu'n dda ar gyfer pob sector yn y gymdeithas, gan alluogi pawb i gael ansawdd bywyd da drwy fyw mewn cymunedau cryf a diogel, gwella mynediad at wasanaethau, cyfleoedd diwylliannol a chyfleusterau hamdden i gynorthwyo pobl i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw, gan sicrhau bod cynhwysiant cymdeithasol yn cael ei ddatblygu a chymunedau mwy cydlynol; a
- c) gwerthfawrogi ansawdd tirweddau a'r amgylchedd hanesyddol, diogelu asedau economaidd yn y dyfodol mewn ymateb i'r heriau a ddaw yn sgil newid yn yr hinsawdd a hyrwyddo atebion carbon isel, diogelu tirweddau a chynefinoedd, galluogi cyfleoedd i gysylltu â'r amgylchedd naturiol ac annog ffyrdd iachach o fyw, gyda'r budd o wella llesiant corfforol a meddyliol.

1.3.3 Ail-weithiwyd Polisi Cynllunio Cymru gan Lywodraeth Cymru ar themâu polisi yn gysylltiedig â'r nodau llesiant, gyda pholisiâu'n cael eu diweddarau i adlewyrchu strategaethau newydd Llywodraeth Cymru. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar Rifyn 10 Polisi Cynllunio Cymru rhwng Chwefror a Mai 2018. Deallir y bydd yn cael ei fabwysiadu a'i gyhoeddi erbyn diwedd 2018.

Nodiadau Cyngor Technegol (TAN)

1.3.4 Fel y disgrifiwyd uchod, mae Nodiadau Cyngor Technegol yn rhan o bolisi cynllunio cenedlaethol, ac felly gallant fod yn berthnasol i benderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio. O safbwynt y Cyngor, y rhai sy'n arbennig o berthnasol yw: TAN 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy; TAN 5 Cadwraeth Natur a Chynllunio; TAN 11 Sŵn; TAN 12 Dylunio; TAN 18: Trafnidiaeth; TAN 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg; TAN 23: Datblygu Economaidd; a TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol. Bydd penodau unigol yn yr Adroddiad ar yr Effaith Leol yn rhoi rhagor o fanylion, lle bo angen.

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn a fabwysiadwy (Gorffennaf 2017)

1.3.5 Mae Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd a fabwysiadwy ar gyfer 2011 - 2026 yn arbennig o berthnasol i'r Adroddiad ar y Effaith Leol hwn, gan iddo gael ei ddatblygu i roi sylw penodol i gynigion Wylfa Newydd ac elwa ar Archwiliad Cyhoeddus ffurfiol yn ddiweddar (2016 - 2017). Arweiniodd hynny at ganfod addasiadau dilynol cadarn a nodwyd gan yr Arolygwyr Cynllunio. Mae gweledigaeth ac amcanion strategol y Cynllun (Pennod 4), y Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol a'r adran datblygiadau cysylltiedig (paragraffau 6.3.1 - 6.3.10) ac adran Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig

(paragraffau 6.3.12 - 6.3.24) ym mhennod 6 y Cynllun yn ceisio sicrhau yr eir i'r afael yn llawn ag effeithiau lleol Wylfa Newydd. Mae'r adran olaf yn cynnwys pedwar Polisi Strategol (Polisiâu PS 9 - PS 12) sy'n delio'n benodol â Wylfa Newydd a'i ddatblygiadau cysylltiedig.

1.3.6 Mae Pennod 4 y Cynllun yn nodi gweledigaeth ac amcanion y Cyngor, ac mae'r canlynol yn arbennig o berthnasol i Wylfa Newydd:

a) Dyfyniadau o weledigaeth y Cynllun:

“Erbyn 2026, bydd Ynys Môn a Gwynedd yn cael eu cydnabod am eu cymunedau ffyniannus a llawn bywyd sy'n dathlu eu diwylliant, eu treftadaeth a'u hamgylchedd unigryw, ac yn llefydd y bydd pobl yn dewis byw, gweithio ac ymweld.

Mae hyn yn golygu y bydd ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn un:

- sy'n cael ei adnabod fel lleoliad blaenllaw i amrywiaeth o sectorau ynni adnewyddadwy a charbon isel a diwydiannau sy'n seiliedig ar wybodaeth a fydd wedi cyfrannu at drawsnewid yr economi leol, gan gynnwys bod yn gartref i bwerdy niwclear newydd a fydd yn cynhyrchu ynni carbon isel ac yn ysgogi adfywiad yn ardal y Cynllun

Bydd Amlwch yn gwella ei rôl fel canolfan allweddol yng ngogledd Ynys Môn ar gyfer tai, masnach a chyfleoedd cyflogaeth i gefnogi'r atomfa newydd gerllaw yn y Wylfa. Fe fydd buddsoddiad yng nghanol y dref yn golygu bod yna amgylchedd siopa well. Bydd buddsoddiad yn nhreftadaeth y Deyrnas Gopr rhwng Amlwch a Mynydd Parys yn cryfhau cyrchfan ymwelwyr i'r ardal.”

b) Amcan strategol:

“Thema 3: Cefnogi twf ac adfywiad a fydd yn trawsffurfio'r economi lleol o dan ymbarél Rhaglen Ynys Ynni Môn a strategaethau a chynlluniau eraill, gan adeiladu ar yr elfennau o'i broffil economaidd unigryw sy'n cael eu hystyried yn arwyddocaol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol:

SO 9 - Cefnogi a manteisio ar ddatblygiad Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig er mwyn uchafu cyfleoedd economaidd-gymdeithasol ar gyfer busnesau lleol a chyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy i bobl leol. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo rhwydwaith addas o safleoedd i ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd wrth sicrhau bod effeithiau andwyol Prosiect Wylfa Newydd ar gymunedau lleol yn cael eu hosgoi, neu eu lliniaru'n briodol, a lle mae hynny'n briodol, bod buddiannau etifeddiaeth yn cael eu darparu.”

1.3.7 Disgwylir y bydd cynigion, lle bo hynny'n bosibl, yn cyfrannu'n gadarnhaol at weithredu'r strategaeth ofodol ac yn bodloni amcanion strategol sylfaenol y Cynllun. Mae polisiâu'n nodi disgwylid o ymrwymiad gan Horizon i fabwysiadu mentrau i liniaru a gwneud iawn am effeithiau. Ystyrir bod y polisiâu a ganlyn yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2017 yn arbennig o

berthnasol i gynnig Horizon o safbwynt y Cyngor. Bydd Polisiâu eraill yn berthnasol a, lle bo'n briodol, cyfeirir atynt mewn Penodau unigol yn yr Adroddiad ar yr Effaith Leol hwn.

c) Polisi Strategol PS 1: Y Gymraeg a'i Diwylliant

Rhan sy'n arbennig o berthnasol yma yw maen prawf 2, (sy'n gysylltiedig â maen prawf 4 Polisi Strategol PS 5), *'Gofyn am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg, a fydd yn dweud sut fydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg, pryd fydd y datblygiad arfaethedig ar safle ar hap annisgwyl ar gyfer datblygiad tai ar raddfa fawr neu ddatblygiad cyflogaeth ar raddfa fawr a fyddai'n golygu llif arwyddocaol o weithlu'*

d) Polisi Strategol PS 2: Seilwaith a Chyfraniadau Datblygwyr

Rhan sy'n arbennig o berthnasol yma yw *'Bydd y Cynghorau'n disgwyl i ddatblygiadau newydd sicrhau darpariaeth ddigonol o isadeiledd hanfodol i wneud y datblygiadau'n dderbyniol, naill ai drwy amod neu drwy rwymedigaeth cynllunio'... a...*

'Lle na ellir darparu'r isadeiledd hanfodol ar y safle ("mewn ffyrdd eraill"/"in kind"), gofynnir am gyfraniadau ariannol o fewn cyfyngiadau deddfwriaethol, i gael buddsoddiad hanfodol oddi ar y safle'.

e) Polisi ISA 1: Darparu Seilwaith

Yr hyn sy'n berthnasol yma yw y *'rhoddir caniatâd cynllunio dim ond pan fydd digon o gapasiti seilwaith yn bodoli neu pan fydd yn cael ei gyflenwi mewn ffordd amserol. Pan fydd cynigion yn cynhyrchu angen sydd â chysylltiad uniongyrchol am seilwaith newydd neu well ac nad yw hyn yn cael ei ddarparu gan gwmni gwasanaeth neu seilwaith, mae'n rhaid i'r cynnig dalu am hyn. Mae modd gofyn am gyfraniad ariannol i sicrhau gwelliannau mewn seilwaith, cyfleusterau, gwasanaethau a gwaith cysylltiedig, pan fydd hynny'n angenrheidiol er mwyn gwneud y cynigion yn dderbyniol. Pan fo'n briodol, mae modd gofyn am gyfraniadau am amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys: 1. Tai fforddiadwy...3. Cyfleusterau addysg 4. Cyfleusterau cyflogaeth a hyfforddiant..6 Seilwaith trafndiaeth gan gynnwys trafndiaeth gyhoeddus..8 Cadwraeth natur.... 12 Mesurau'r Gymraeg.*

f) Polisi Strategol PS 4: Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygu a Hygyrchedd

Rhywbeth sy'n arbennig o berthnasol yma yw Rhan 2 mewn perthynas â Throsglwyddo rhwng Dulliau Teithio. Nodir yn Rhan 2 ii. *'Cyfleusterau parcio a theithio parhaol wedi eu lleoli'n strategol o fewn neu wrth ymyl Canolfannau neu mewn lleoliadau eraill sy'n agos i'r prif rwydwaith ffyrdd lle gellir dangos nad oes safleoedd amgen boddhaol yn agosach at y Canolfannau, lle mae cwsmeriaid yn cael eu cefnogi gan wasanaethau bysus aml rhwng y cyfleuster a phen y daith;'...a...*

Nodir yn rhan 2 v. *'Cyfleusterau ar gyfer parcio a rhannu mewn lleoliadau priodol ar y rhwydwaith priffyrdd strategol yn gyfochrog i aneddeledd neu oddi mewn iddynt'.*

g) Polisi TRA 4: Rheoli Effeithiau Trafnidiaeth

Bwriad y polisi hwn, lle bo'n briodol, yw y *'dylid cynllunio a dylunio datblygiad mewn ffordd sydd yn hyrwyddo'r dulliau mwyaf cynaliadwy o deithio gan roi sylw i'r goeden o ddefnyddwyr'* ac y...

'Gwrthodir cynigion a fyddai'n peri niwed annerbyniol i weithrediad diogel ac effeithlon y briffordd, cludiant cyhoeddus a rhwydweithiau cludiant eraill gan gynnwys llwybrau i gerddwyr, beicwyr, hawliau tramwy cyhoeddus a llwybrau marchogaeth. Bydd graddfa niwed annerbyniol yn cael ei benderfynu gan yr awdurdod lleol achos wrth achos'.

h) Polisi Strategol PS 5: Datblygu Cynaliadwy

Yr hyn sy'n berthnasol yma yw y *'bydd cynigion datblygu yn cael eu cefnogi pan gellir dangos eu bod yn cyd-fynd ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Dylai pob cynnig...4 'Warchod, cefnogi a hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg yn unol â Pholisi Strategol PS 1'...6. 'Cadw a gwella ansawdd asedau'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol (gan gynnwys eu gosodiad), gwella'r ddealltwriaeth ohonynt, y gwerthfawrogiad ohonynt am eu cyfraniad cymdeithasol ac economaidd '...ac*

'Yn ogystal, dylai cynigion, lle bo hynny'n briodol: 9. Ddiwallu anghenion y boblogaeth leol drwy gydol eu hoes o ran ansawdd, y mathau o ddaliadaeth a fforddiadwyedd unedau tai...11. Cefnogi'r economi leol a busnesau lleol drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes a datblygu sgiliau yn unol â Pholisi Strategol PS 13... 12. Lleihau'r angen i deithio gyda thrafnidiaeth breifat ac annog y cyfleoedd sydd ar gael i'r holl deithwyr deithio pan fo angen, ac mor aml â phosibl, drwy dulliau teithio amgen, gan roi pwyslais penodol ar gerdded, beicio, a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus'.

i) Polisi Strategol PS 9: Wylfa Newydd a Datblygiadau Perthnasol

Mae'r polisi hwn yn arbennig o berthnasol gan ei fod yn nodi y bydd y Cyngor yn ystyried nifer o faterion sydd wedi eu cynnwys yn y Polisi hwn wrth baratoi ei Adroddiad ar yr Effaith Leol. Mae'r ystyriaethau perthnasol yn cynnwys meini prawf 3, 5, 6, 7, 9, 12 ac 16:

'3. Mae cynigion priffyrdd a thrafnidiaeth ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd yn rhan o'r strategaeth traffig a thrafnidiaeth integredig sy'n ystyried Polisi Strategol PS 4 ac unrhyw Bolisiau manwl perthnasol yn y Cynllun a Lleihau effeithiau trafndiaeth niweidiol i lefel dderbyniol, gan gynnwys y rheini sy'n codi yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, ac unrhyw gamau adfer...

5. "Dylid diwallu anghenion gweithwyr adeiladu o ran llety mewn ffordd sy'n lleihau'r effaith ar y farchnad dai leol, gan gynnwys gallu'r bobl hynny ar incwm isel i gael mynediad i'r sector rhentu preifat, tai fforddiadwy a gwasanaethau tai eraill (gan ystyried yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a gyhoeddwyd), â pheidio ag achosi effeithiau economaidd (gan gynnwys y sector twristiaeth), cymdeithasol, ieithyddol neu amgylcheddol niweidiol sy'n annerbyniol...

6. Lle bo cynigion ar gyfer cyfnod dros dro, bydd y manylion ynghylch lleoli a dylunio datblygiad cysylltiedig yn cael eu hysbysu gan ystyriaeth o ddefnydd etifeddol, fel bod buddsoddiad mewn elfennau fel seilwaith, adeiladau, gweithfeydd ecolegol a thirwedd yn dod â buddion hirdymor. Lle bo'n briodol, bydd angen cynlluniau darparu gyda'r cais cynllunio i ddangos sut rhoddwyd sylw i ddefnydd ar gyfer ffyrdd etifeddiaeth o ddefnyddio yn ystod y cyfnod cyn gwneud cais, a'r cynlluniau hynny ddarparu gwybodaeth ar gyfer y ffordd o weithredu tuag at ddylanwadu dyluniad a chynllun y safleoedd datblygu cysylltiedig, yn ogystal â chyfrannu at fframio cytundeb Adran 106 a/neu cytundebau eraill a thaliadau Ardoll Isadeiledd Cymunedol (os yn gymwys);

7. Bydd cynigion am ddatblygiad cysylltiedig ar gyfer llety gweithwyr steil campws graddfa fawr (500 neu fwy o wlaŷu), canolfannau logisteg, cyfleusterau parcio a theithio yn cael eu hasesu yn erbyn polisïau PS 10 - 12 hefyd;

9. Bydd angen i'r hyrwyddwr drafod yn fuan efo'r Cyngor ynglŷn â strategaethau caffael, cyflogaeth, addysg, hyfforddiant a phenodi, gyda'r nod i uchafu cyfleoedd cyflogaeth, busnes a hyfforddiant ar gyfer cymunedau lleol yn y tymor byr a thymor hirach....

12. Dylai'r holl gynigion gael eu gwasanaethu'n briodol gan seilwaith trafndiaeth, gan gynnwys trafndiaeth gyhoeddus ac ni fydd yn cael effeithiau niweidiol ar gymunedau lleol a thwristiaeth a rhaid dangos hyn mewn asesiad trafndiaeth. Lle ceir cysylltedd trafndiaeth annigonol, nad oes gan y rhwydwaith ffyrdd digon o gapasiti i ymdopi â lefel y traffig a fydd yn deillio o unrhyw ddatblygiad, neu rhagwelir effaith andwyol, bydd angen gwelliannau priodol i'r rhwydwaith trafndiaeth a darperir opsiynau trafndiaeth gynaliadwy i liniaru;

16. Mae'n bosibl, wrth i'r prosiect ddatblygu, oherwydd canlyniadau na chawsant eu rhagweld oddi wrth adeiladu a gweithredu Prosiect Wylfa Newydd, y bydd y Cynghorau angen gwybodaeth ychwanegol oddi wrth y datblygwr, neu i waith gael ei wneud ganddo er mwyn gwneud iawn am unrhyw ardrawiadau neu feichiau ychwanegol ar y gymuned mae hynny'n effeithio arni. Dylai'r datblygwr gynnwys mecanweithiau adolygu er mwyn monitro'r amrediad llawn o ardrawiadau, ac adolygu pa mor ddigonol yw mesurau lleddfu neu ddiogolledu, a gwneud newidiadau fel bydd angen.

j) Polisi Strategol PS 10: Wylfa Newydd – Llety Dros Dro Arddull Campws ar gyfer Gweithwyr Adeiladu

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â digonolrwydd y llety dros dro arfaethedig, ac mae'n arbennig o berthnasol o ran meini prawf 1, 2, 3 a 5, a bydd yn golygu y bydd:

1. Rhaid i'r datblygwr ddangos yn y lle cyntaf bod y cynnig yn bodloni angen y mae modd ei brofi am lety dros dro ar gyfer gweithwyr adeiladu na ellir ei ddiwallu drwy lety preswyl presennol, ailddefnyddio adeiladau, neu ddarparu adeiladau parhaol newydd y byddai modd eu haddasu at ddefnydd parhaol ar ôl i'r gweithwyr adeiladu eu defnyddio; a

2. Bydd y cynnig yn cael ei leoli ar safle Prosiect Wylfa Newydd, neu ar safle gerllaw neu sydd wedi'i gysylltu'n dda â ffin datblygu Caergybi, Amlwch, Llangefni, Gaerwen neu'r Fali, a bydd yn agos at y prif rwydwaith priffyrdd, lle mae modd darparu mynediad digonol heb gael effaith niweidiol sylweddol ar nodweddion na phriodweddau'r dirwedd. Rhaid iddo hefyd ystyried y polisi sy'n cael ei ffafrio mewn perthynas â defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n barod

3. rhaid i'r cynnig gynnwys mecanweithiau priodol i liniaru unrhyw effeithiau anffafriol y datblygiad arfaethedig ar yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig neu gwneir cyfraniad tuag at liniaru effeithiau hynny

k) Polisi Strategol PS 11: Wylfa Newydd – Logisteg

Y rhannau sy'n arbennig o berthnasol o ran lleoliad yw:

- 1 Mae'r safle wedi ei leoli:
 - i. ar safle cyflogaeth sy'n cael ei warchod neu ei ddynodi; neu
 - ii. o fewn ffiniau datblygu Canolfannau a restrir yng Nghoeden Aneddeled y Cynllun; neu
 - iii. mewn lleoliadau eraill ger ffiniau datblygu Canolfannau sydd wedi eu lleoli ar hyd neu'n agos at yr A5 / A55 lle mae'r ymgeisydd wedi dangos y rhoddwyd ystyriaeth i ddechrau i safleoedd ym meini prawf 1 i a ii a'u bod nhw wedi cael eu rhoi o'r neilltu oherwydd ystyriaethau tirwedd ac amgylcheddol ac y gellir lleihau a lliniaru ardrawiadau'r datblygiad yng nghefn gwlad yn foddhaol

l) Polisi Strategol PS 12: Wylfa Newydd – Cyfleusterau Parcio a Theithio a Pharcio a Rhannu

Rhan sy'n arbennig o berthnasol o ran lleihau teithio mewn ceir preifat drwy leoliad:

- i. O fewn, neu'n gyfagos i, ffiniau datblygu Canolfannau sydd wedi'u lleoli ar ochr yr A5/A55 neu'n agos iddynt; neu
- ii. mewn lleoliadau eraill sydd ar hyd yr A5/A55 lle mae'r safle yn rhan o gynllun cynhwysfawr i liniaru effeithiau trafnidiaeth y Prosiect; wedi rhoi sylw i'r ffaith bod y Cynghorau yn ffafrio'r angen i roi ystyriaeth i safleoedd yn agosach at y Canolfannau

m) Polisi Strategol PS 14: Yr Economi Ymwelwyr

Rhan 5 sy'n fwyaf perthnasol: 'Atal datblygiadau fyddai'n cael effaith andwyol annerbyniol ar y cyfleusterau twristiaeth, gan gynnwys nodweddion llety...'

n) Polisi TAI 14: Defnydd Preswyl o Garafanau, Cartrefi Symudol neu Fathau Eraill o Lety nad ydynt yn Llety Parhaol

Y rhannau perthnasol fan hyn yw meini prawf 1, 4 a 6. '1. Mae'n cael ei leoli am gyfnod cyfyngedig o amser, ac mae ei angen i roi llety i weithwyr dros dro yn ystod adeiladu... neu ii. caiff y safle ei leoli er mwyn lleihau'r angen i deithio a hyrwyddo'r defnydd o ddulliau teithio cynaliadwy...

4. Mae'r safle wedi'i leoli fel ei fod yn lleihau'r angen am deithio ac yn hyrwyddo'r defnydd o foddau trafnidiaeth cynaliadwy...

6. A oes modd dangos na fyddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol sylweddol ar y diwydiant twristiaeth.

o) Polisi Strategol PS 19: Gwarchod, a phan fo'n briodol, gwella'r amgylchedd naturiol

Rhan sy'n arbennig o berthnasol yw 1. Diogelu neu pan fo'n briodol gwella safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a, phan fo'n briodol, eu cyd-destun yn unol â Pholisi Cenedlaethol;

3. Rhoi ystyriaeth briodol i arwyddocâd cymharol dynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol neu leol wrth ystyried y pwysau i'w rhoi ar fuddiannau a gydnabyddir, gan sicrhau bod unrhyw gyfrifoldebau a dyletswyddau rhyngwladol neu genedlaethol yn cael eu cyflawni'n llawn yn unol â pholisi cenedlaethol;

6. Diogelu rhywogaethau sy'n bwysig yn rhyngwladol, yn genedlaethol ac yn lleol

p) Polisi Strategol PS 20: Gwarchod, a phan fo'n briodol, diogelu asedau treftadaeth

Rhan sy'n arbennig o berthnasol yw bod y Polisi yn anelu at warchod a, lle bo'n briodol, gwella set o asedau treftadaeth, sy'n cynnwys Tirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig (yn unol â Pholisi AT 1).

Wylfa Newydd: Canllawiau Cynllunio Atodol (Mai 2018)

1.3.8 Mae Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn yn cynnwys polisiâu a chynigion fydd yn sail ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio, gan osgoi gormod o fanylion. Fodd bynnag, mae defnydd dethol o ganllawiau cynllunio atodol yn cael ei hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru fel ffordd o gyflwyno canllawiau thematig mwy manwl neu ganllawiau sy'n ymwneud â safle penodol ar gyfer sut mae polisiâu cynllun datblygu lleol yn cael eu dehongli a'u cymhwyso dan amgylchiadau penodol neu mewn ardaloedd penodol.

1.3.9 Paratowyd a mabwysiadwyd fersiwn gyntaf Canllaw Cynllunio Atodol Wylfa Newydd i gyd-fynd â pholisiau'r cynllun datblygu blaenorol a pholisiau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a oedd yn datblygu er mwyn llywio trafodaethau cyn ymgeisio â Horizon. Yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru, adolygodd y Cyngor y Canllaw Cynllunio Atodol er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a fabwysiadwyd, h.y. pan gadarnhawyd y dull polisi ar ddiwedd Archwiliad Cyhoeddus y Cynllun, ac i sicrhau cysondeb â newidiadau deddfwriaethol a bod y cyngor ynghylch gweithredu'r Cynllun wedi ymateb i'r newidiadau mewn elfennau o'r Prosiect.

1.3.10 Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol Wylfa Newydd a fabwysiadwyd wedi cael ei rannu'n nifer o adrannau. Mae Adrannau 4 a 5 yn arbennig o berthnasol:

- i. Darparu canllawiau ar gyfer y prosiect cyfan sy'n ymwneud â'r prif effeithiau posibl tebygol sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd ac a fydd yn helpu i sicrhau bod datblygiadau cysylltiedig a pherthnasol wedi'u lleoli'n gynaliadwy, gan ystyried y sylfaen dystiolaeth a pholisi cynllunio cenedlaethol a lleol (Adran 4); ac
- ii. Yn rhoi arweiniad o ran datblygu yng ngogledd Ynys Môn ac yng ngweddill Ynys Môn, gan gynnwys prif safle Wylfa Newydd (Adran 5).

2. Cydymffurfio â pholisi

- 2.1.1 Mae CSYM, ers dros ddegawd, wedi dangos ymagwedd o gefnogaeth mewn egwyddor yn gyson tuag at brosiect Wylfa Newydd ar yr amod bod yr effeithiau'n cael eu lleihau, eu rheoli a'u lliniaru'n briodol. Adlewyrchir y sefyllfa hon yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sy'n cefnogi'r egwyddor o adeiladu a gweithredu gorsaf ynni niwclear newydd yn Wylfa. Mae cydymffurfiaid y prosiect â pholisi ar gyfer pob safle a/neu bwnc yn cael ei ystyried yn fanwl yn y penodau perthnasol ar yr Adroddiad ar yr Effaith Leol; mae'r adran hon yn ystyried y prosiect yn ei gyfanrwydd i roi barn gyffredinol.
- 2.1.2 Mae CSYM o'r farn nad yw Horizon wedi rhoi sylw dyledus na dangos pwysigrwydd canolog llesiant a chymhwysu'r ddeddfwriaeth llesiant wrth ddatblygu'r cais a chwblhau'r cynigion gerbron yr Awdurdod Archwilio. Nodir bod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ailstrwythuro Polisi Cynllunio Cymru yn unol â'i nodau llesiant, a fydd yn rhoi lle canolog iddynt mewn polisi cynllunio yn ogystal â deddfwriaeth. Er gwaethaf cais i ddarparu asesiad llesiant, mae Horizon wedi methu ag ymgysylltu â'r nodau a'r amcanion hyn. Gan hynny, mae CSYM wedi cynhyrchu asesiad llesiant fel rhan o'r Adroddiad ar yr Effaith Leol hwn i helpu i fynd i'r afael â'r hepgoriad hwn.
- 2.1.3 Nid yw'r prosiect yn cydymffurfio'n llawn â Pholisi Cynllunio Cymru 9. Nid yw'r cynigion yn cymryd cyfleoedd sydd ar gael i ddarparu cyflogaeth a datblygiad economaidd sydd wedi eu cysylltu'n dda drwy ddarparu cysylltiadau trafndiaeth gynaliadwy, gan gynnwys llwybrau beicio. Mae'r Adroddiad ar yr Effaith Leol hwn yn nodi nifer o gyfleoedd i'r prosiect wella cydymffurfiaeth â'r amcan hwn, gan gynnwys, fel enghraifft, galluogi gwell mynediad i feiciau at safle'r ganolfan logisteg ym Mharc Cybi, sy'n safle cyflogaeth a ddyrannwyd ac y dylid ei ddylunio a'i ddatblygu'n gynaliadwy i alluogi defnydd yn y dyfodol yn ogystal â'r defnydd dros dro arfaethedig. Mae penodau safle-benodol a thraffig a thrafnidiaeth yr Adroddiad ar yr Effaith Leol yn mynd i'r afael â'r materion hyn yn fanwl. Nid yw gofyniad Polisi Cynllunio Cymru i ddarparu cymunedau cydlynol a gwella mynediad at wasanaethau, cyfleoedd diwylliannol a chyfleusterau hamdden yn cael ei fodloni ar hyn o bryd, ond unwaith eto mae cyfleoedd i Horizon gydymffurfio yn cael eu nodi yn yr Adroddiad ar yr Effaith Leol hwn. Yn benodol, mae'r penodau ar dai a chymunedau yn nodi sut mae'r prosiect ar hyn o bryd yn methu hyrwyddo cymunedau diogel a chydlynol na mynd i'r afael yn llawn â'r effaith negyddol ar hamdden, gan gynnwys manau agored a defnyddio llwybrau cerdded a sut gellid lliniaru'r effeithiau hyn er mwyn gwella cydymffurfiaeth.

- 2.1.4 Mae gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (4.5) yn darparu “bod y Cynghorau o'r farn bod Prosiect Wylfa Newydd yn darparu cyfle unigryw a digynsail i Ynys Môn a hyrwyddwyr prosiectau gydweithio i gyfrannu at drawsnewidiad economaidd-gymdeithasol Ynys Môn a rhanbarth ehangach Gogledd Cymru, darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy, gwella ansawdd bywyd ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol a gwella hunaniaeth a hynodrwydd lleol.”
- 2.1.5 Mae'r adran benodol ar Wylfa Newydd (6.3.13) yn rhoi manylion pellach ar sut disgwylir i'r prosiect hwn gyfrannu at y weledigaeth honno drwy:
- gyfrannu at wireddu Rhaglen Ynys Ynni Ynys Môn ac Ardal Fenter Ynys Môn;
 - gyrru'r broses o drawsnewid yr economi, gan fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer cyflogi a gwella sgiliau pobl leol;
 - cynnal a gwella ansawdd bywyd cymunedau lleol ac ymwelwyr
 - gwarchod a chryfhau hunaniaeth unigryw ardal y Cynllun;
 - gwarchod, neu lle bo'n briodol, gwella amgylchedd ac adnoddau nodedig ardal y Cynllun, gan ystyried newid yn yr hinsawdd.
- 2.1.6 Nodir prosiect Wylfa Newydd fel elfen allweddol o'r Rhaglen Ynys Ynni. Mae'r Cyngor o'r farn nad yw'r cynigion fel y'u gwnaed yn y cais, fodd bynnag, yn cydymffurfio'n llawn â'r pedwar pwynt bwled sy'n weddill.
- 2.1.7 Mae'r prosiect fel y'i cynigir yn adweithiol yn gyffredinol i effeithiau y bydd yn eu hachosi, ac felly'n caniatáu i broblem godi cyn iddi gael ei datrys; mae'r dull hwn yn groes i'r angen i gynnal, cadw a gwella'r nodweddion a nodwyd. Mae CSYM yn gwrthwynebu mewn egwyddor y dull monitro ac ymateb adweithiol a fabwysiadwyd yn y cais gan ei fod yn groes i amcan strategol 9, sy'n nodi y dylai effeithiau andwyol Prosiect Wylfa Newydd ar y cymunedau lleol gael eu hosgoi'n briodol lle bo hynny'n bosibl. Mae'r Adroddiad ar yr Effaith Leol hwn yn nodi lle ystyrir bod lliniaru yn rhy adweithiol ac yn awgrymu mesurau rhagweithiol eraill sy'n cyd-fynd ag egwyddorion y gofynion polisi i gynnal a chadw ansawdd bywyd a hunaniaeth Ynys Môn.
- 2.1.8 Mae CSYM o'r farn bod gan y prosiect y potensial i ddarparu buddion sylweddol a sgiliau i bobl leol, ond nid yw'r cynlluniau fel y'u cynigir yn gwneud y mwyaf o'r rheini yn ôl yr angen. Byddai darparu hyfforddiant addysgol a sgiliau ystyrllon yn hyrwyddo llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol drwy wella sgiliau'r gymuned yn unol â'r amcan i wneud y mwyaf o gyfleoedd o dan faen prawf 9 polisi PS9. Nid yw Horizon wedi manteisio i'r eithaf ar y cyfle hwn ac mae'r Cyngor o'r farn ei fod wedi tanamcangyfrif effaith y prosiect ar y farchnad lafur leol a'r angen i annog pobl ifanc leol i ystyried gyrfaedd sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Mae'r penodau ar Addysg a sgiliau a chyflogaeth leol yn nodi mesurau a fyddai'n hybu'r defnydd gorau o'r cyfleoedd hyn ac felly'n cydymffurfio â'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.
- 2.1.9 Nid yw'r prosiect yn gwerthfawrogi, diogelu a cheisio gwella ansawdd tirweddau a'r amgylchedd hanesyddol yn briodol, yn groes i Bolisi Cynllunio Cymru 9, polisiâu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd [PS19 ac PS20] a TAN24. Yn

benodol, mae'r bennod ar yr amgylchedd hanesyddol yn nodi nifer o achosion lle mae'r amgylchedd hanesyddol wedi cael ei danbrizio a lle na chyfiawnhawyd difrod i asedau. Nid yw effeithiau ar y dirwedd a'r amgylchedd hanesyddol wedi cael eu hesbonio'n llawn na'u cyfiawnhau'n ddigonol, a gellid osgoi rhai o'r effeithiau arfaethedig drwy fân newidiadau i'r dyluniad. Gallai'r newidiadau hyn gynnwys adleoli gwaith adeiladu er mwyn osgoi dinistrio asedau yn Cestyll ac addasu cynllun campws y safle i leihau'r ôl-troed ac osgoi effeithiau negyddol ar y tir ar Drwyn Wylfa. Rhoddir rhagor o fanylion yn y penodau perthnasol am y materion a'r mesurau hyn a gynigiwyd gan CSYM i leihau'r effeithiau.

2.1.10 Nid yw'r cynigion yn cydymffurfio â'r angen i bolisiâu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ystyried, hyrwyddo a sicrhau etifeddiaeth gadarnhaol yn sgil y datblygiad. Mae'r ymagwedd a gymerwyd yn ceisio monitro ac yna mynd i'r afael ag effeithiau, yn hytrach na'u hosgoi neu eu lleihau. Nid yw etifeddiaeth wedi ei chynnwys yn y cynigion, a dim ond anghenion uniongyrchol y prosiect ei hun sydd wedi cael eu hystyried yn ystyrllon. Byddai'r ymagwedd gywir o osgoi effeithiau andwyol drwy ddulliau rhagweithiol, ynnddi ei hun, yn helpu i gyflawni etifeddiaeth. Er enghraifft, mae'r Cynllun (yn 6.3.21) yn ei gwneud yn ofynnol ystyried ailddefnyddio neu drosi adeiladau neu ddarparu adeiladau parhaol cyn ystyried adeiladau dros dro. Byddai darparu tai gweithwyr mewn adeiladau parhaol yn cydymffurfio â Pholisi PS10, yn lleihau'r effaith ar y sector llety yn unol â maen prawf 5 Polisi PS9, ac yn creu etifeddiaeth barhaol o ragor o stoc tai y gellid ei ddefnyddio ar gyfer tai cymdeithasol. Nid yw cynnig tai dros dro mewn unedau modwlar a fydd yn cael eu tynnu oddi yno yn cynnig unrhyw etifeddiaeth o gwbl. Mae Horizon wedi osgoi'r gofyniad polisi i ddarparu etifeddiaeth ar y safle campws llety drwy ei leoli ar y prif safle, nad yw ar ffin datblygu na gerllaw, felly nid yw PS10(4) yn berthnasol. Byddai'n ofynnol i unrhyw safle arall gael ei lywio gan ddefnydd etifeddiaeth o dan y polisi hwnnw. Dim ond pan nad oedd modd sicrhau defnydd etifeddiaeth yn ddichonadwy y byddai modd symud adeilad dros dro a chlirio'r safle (PS10(10)).

2.1.11 Nid yw'r rhan o'r safle yn Dalar Hir, sef safle tir glas sy'n bell o unrhyw anheddiad, yn galluogi etifeddiaeth yn briodol gan nad yw ailddefnydd addas o'r safle ar ôl ei ddatblygu wedi cael ei nodi, nac yn cael ei gynnig chwaith, gyda'r bwriad o gael gwared ar yr holl seilwaith a osodwyd yn gyfan gwbl. Yn ogystal â bod yn gynnig gwael o ran cynaliadwyedd, nid yw hyn yn cynnig etifeddiaeth i'r Ynys. Mae datblygu'r safle ym Mharc Cybi yn cynnig rhywfaint o etifeddiaeth gan y bydd y safle cyflogaeth a ddyrannwyd wedi ei wella, ond gellid gwella'r cynigion ar gyfer y safle hwnnw, gan gynnwys drwy wella cysylltedd drwy ddulliau trafndiaeth gynaliadwy.

2.1.12 Ar y cyfan, mae'r Cyngor o'r farn bod egwyddor y datblygiad yn cael ei gefnogi gan bolisi a bod llawer o'r cynnig yn cydymffurfio. Mae modd cydbwysu rhai o'r elfennau nad ydynt yn cydymffurfio na ellir eu hosgoi neu eu lliniaru'n llawn, fel colli asedau treftadaeth ar y prif safle, drwy'r gefnogaeth polisi gyffredinol tuag at y prosiect. Fodd bynnag, nid yw CSYM yn derbyn bod y cynigion fel y'u cyflwynwyd yn cydymffurfio'n llawn, yn enwedig o ran cyflwyno mesurau i wneud y mwyaf o gyfleoedd cyflogaeth a gwella sgiliau pobl leol, lleihau effeithiau ar y farchnad dai, a diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol. Mae

CSYM yn dymuno gweld y mesurau lliniaru a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Effaith Leol hwn yn cael eu diogelu er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag effeithiau'r datblygiad mewn modd sy'n cydymffurfio â'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a'r Canllaw Cynllunio Atodol. Mae CSYM o'r farn nad yw cynigion fel y'u gwnaed yn cydymffurfio â pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ac nad ydynt yn dilyn y canllawiau a nodir yn y Canllaw Cynllunio Atodol ynglŷn â'r angen i sicrhau etifeddiaeth.